# PRICE, THOMAS (1820 - 1888), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

**Enw:** Thomas Price
**Dyddiad geni:** 1820
**Dyddiad marw:** 1888
**Priod:** Ann Price (née David)
**Rhiant:** Mary Price
**Rhiant:** John Price
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Watkin William Price

Ganwyd 17 Ebrill, yn fab i John a Mary Price, Maesycwper, Ysgethrog, plwyf Llanhamlach, sir Frycheiniog. Dechreuodd weithio yn ieuanc iawn, ar y cyntaf ar fferm ac wedyn fel gwas bach teuluol i deulu Clifton, T Mawr, Llanfrynach; y merched Clifton a ddysgodd Saesneg iddo. Gydag arian a gynilodd o'i enillion fe'i prentisiodd ei hun i Thomas Watkins, Struet, Aberhonddu, paentiwr, gwydrwr, etc. Eglwyswyr oedd ei rieni, eithr ymunodd Thomas â'r Bedyddwyr yn Aberhonddu. Wedi iddo fwrw ei brentisiaeth cerddodd yr holl ffordd i Lundain lle y bu'n gweithio am bedair blynedd a pharhau ar yr un pryd i dderbyn addysg mewn Mechanics' Institute. Aeth i goleg y Bedyddwyr, Pontyp l, yn 1842, a bu yno am dair blynedd a hanner o dan y pennaeth Thomas Thomas. Yn niwedd 1845 aeth i fugeilio'r Bedyddwyr a oedd yn cyfarfod yn Carmel, Monk Street ('Capel Penpound'), Aberdâr, cafodd ei ordeinio 1 Ionawr 1846, a bu yno, ei unig ofalaeth, hyd ei farwolaeth ar 29 Chwefror 1888. Trwy ei ynni a'i fedr fel trefnydd llwyddodd Price i beri cynnydd mawr yn nifer Bedyddwyr y cwm trwy agor ysgolion Sul ac yna adeiladu capeli. Symudodd ei eglwys i gapel newydd, sef Calfaria. Daeth yntau'n adnabyddus iawn fel pregethwr a darlithydd. Cafodd Ph.D. gan Brifysgol Leipzig; ac yn 1865 ef oedd llywydd cymanfa Bedyddwyr Cymru. Cyhoeddodd lyfrau ateb i *Bapto a Baptiso* (William Edwards), *Jiwbili Eglwys Calfaria, Aberdar*, 1862, a *Trem*, 1885-6. Bu'n fwy adnabyddus fyth fel golygydd *Y Gwron*, 1855-60, *Y Gweithiwr*, 1859-60), a *Seren Cymru*, 1860-76; bu hefyd yn golygu *Y Medelwr Ieuanc* a *Y Gwyliedydd*. Gwnaeth waith mawr gyda sefydlu cymdeithasau cyfeillgar - yn enwedig ' Yr Odyddion ' a'r ' Iforiaid.' Cymerth ran flaenllaw mewn gwleidyddiaeth ac addysg (e.e. bu'n croesi cleddyfau â John Griffith, ficer Aberdâr, adeg cyhoeddi adroddiadau 1846-7 ar gyflwr addysg yng Nghymru). Bu'n ddiwyd gyda mudiadau a sefydliadau lleol; ef oedd ysgrifennydd cyntaf yr ' Aberdare British School Committee ' a agorodd yr Ysgol Frutanaidd gyntaf yn nyffryn Aberdâr, sef y ' Park School ' ('Ysgol y Comin'). Priododd, 16 Mawrth 1847, Mrs. Ann Gilbert (a fu farw 1 Medi 1849), merch ieuengaf Thomas David, Abernant-y-groes, Cwmbach, a bu iddynt fab a merch.

## Awdur

**Watkin William Price**, (1873 - 1967)

## Ffynonellau

Benjamin Evans ('Telynfab'), *Bywgraffiad y diweddar Barchedig T. Price, Aberdâr* (Aberdâr 1891)

*Canmlwyddiant Eglwys Calfaria, Aberdâr, 1812-1912* (Aberdâr 1912)

Ben Morus, *Enwogion Aberdâr* (1910)

*Y Geninen*, 1888, 167, 173

ibid., 1906

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Baptist Handbook*, 1889

*Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru* a Mynwy, 1889

*Y Gwron*, 14 Awst a 4 Medi 1858, 14 Gorffennaf 1859

*Western Mail*, 7 Mawrth 1888

*South Wales News*, 2 Mehefin 1928

*Y Gweithiwr Cymreig*, 8 Mawrth 1888

*Aberdare Leader*, 3 Chwefror, 1940

Archifau LlGC: NLW MS 7177D: Autograph letters

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Price (Calfaria, Aberdâr)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 152863637

Wikidata: Q17014441

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu